

# Risk Management Principles

## 1. Risk management behaviour and culture

1.1 All managers have a responsibility to establish a culture which promotes consideration of risk as part of decision making processes and **openness** in reporting and escalating risk matters.

## 2. Risk management roles and responsibilities

2.1 **Executive management are accountable** for the identification, assessment and control of risks arising from the activities for which they have responsibility (accounting officers, function heads, line managers etc.) This includes accountability for establishment of the risk appetite related to these activities.

2.2 **Every member of staff is responsible** for understanding and managing the risks they take on behalf of the Department and for ensuring that they act within the authorities and accountabilities delegated to them, including undertaking any policy, procedural and control requirements.

2.3 Where business activities are **outsourced** to a third party (or **'in-sourced' to a shared service**) the management of the commissioning business remain accountable for ensuring that attendant business risks are effectively managed by the supplier of the service.

## 3. Risk management approach

3.1 The Department will apply **consistent standards** in relation to the management of risk including a systematic approach toward identifying and assessing 'events' or threats that could undermine delivery or harm our reputation. DWP will **leverage the Department's expertise** and **embed risk management** in key decision making processes.

3.2 Risk assessments and risk exposures (including material transactions, financial positions, change portfolios and the key controls established to manage them) will be subject to **management oversight** (monitoring, review and challenge).

3.3 **Significant risks** that impact on the Department's key strategic objectives, financial position or reputation will be reported to ET and the Board.

3.4 The Department's **risk appetite** (i.e. the nature and amount of risk that Department is willing to bear) will be established via a combination of:

- operating or management policies, standards and procedures
- review, discussion and treatment of identified and assessed risks.

# Egwyddorion Rheoli Risg

## 1. Ymddygiad a diwylliant rheoli risg

1.1 Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb i sefydlu diwylliant lle y caiff ystyriaeth o risg fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ei hyrwyddo ynghyd ag agwedd **agored** wrth adrodd ar faterion risg a throsglwyddo ymlaen.

## 2. Rolau a chyfrifoldebau rheoli risg

2.1 **Mae rheolwyr gweithredol yn atebol** am nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'r gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt (swyddogion cyfrifyddu, penaethiaid swyddogaethau, rheolwyr llinell ac ati.) Mae hyn yn cynnwys bod yn atebol am sefydlu'r archwaeth risg sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.

2.2 **Mae pob aelod o staff yn gyfrifol** am ddeall a rheoli'r risgiau maent yn eu cymryd ar ran yr Adran a sicrhau eu bod yn ymddwyn yn ôl yr awdurdodau a'r cyfrifoldebau a roddir iddynt, gan gynnwys ymgymryd ag unrhyw ofynion yn ymwneud â pholisi, gweithdrefnau a rheoli.

2.3 Pan gaiff gweithgareddau busnes eu **hanfon allan** at drydydd parti (neu eu **'hanfon i mewn' at wasanaethau a rennir**) rheolwyr y busnes sy'n comisiynu a fydd yn dal yn atebol am sicrhau bod risgiau busnesau cysylltiedig yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol gan ddarparwyr y gwasanaeth.

## 3. Dull rheoli risg

3.1 Bydd yr Adran yn gosod **safonau cyson** o ran rheoli risg gan gynnwys dull systematig o ymdrin â nodi ac asesu 'digwyddiadau' neu fygythiadau a allai danseilio cyflawniad neu niweidio ein henw da. Bydd DWP yn gwneud defnydd o **arbenigedd yr Adran yn effeithiol** ac yn **ymgorffori rheoli risg** mewn prosesau gwneud penderfyniadau allweddol.

3.2 Bydd asesiadau risg ac amlygiadau risg (gan gynnwys trafodion perthnasol, sefyllfaoedd ariannol, portffolios newid a'r rheolaethau allweddol a sefydlwyd i'w rheoli) yn destun **goruchwyliaeth y rheolwyr** (monitro, adolygu a herio).

3.3 Bydd **risgiau sylweddol** sy'n effeithio ar amcanion strategol allweddol, sefyllfa ariannol neu enw da yr Adran yn cael eu hadrodd i'r tîm gweithredu a'r Bwrdd.

3.4 Sefydlir **archwaeth risg** yr Adran (h.y. natur a nifer y risgiau y mae'r Adran yn barod i ymgymryd â hwy) drwy gyfuniad o:

- polisiau, safonau a gweithdrefnau gweithredu neu reoli
- adolygiad, trafodaeth a thriniaeth o risgiau a nodwyd ac a aseswyd.